Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: dadansoddiad data

Diweddariad 2024

# Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: dadansoddiad data

**Cynulleidfa**
Cyrff addysg sy'n ymwneud â gweithlu cyfrwng Cymraeg neu sydd â diddordeb ynddo ac sy'n datblygu sgiliau cyfrwng Cymraeg y gweithlu addysg gan gynnwys: ysgolion, partneriaethau addysg gychwynnol athrawon (AGA), undebau athrawon, consortia a phartneriaethau rhanbarthol, awdurdodau lleol, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, darparwyr y Cynllun Sabothol, CYDAG, adrannau Cymraeg prifysgolion, Mudiad Meithrin, Comisiynydd y Gymraeg ac eraill â diddordeb.

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn rhoi diweddariad i 'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: dadansoddiad data' a gyhoeddwyd yn 2022. Mae'n cyd-fynd â 'Chynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg'. Mae'n darparu ystod o ddata ar y gweithlu addysg o nifer o ffynonellau. Defnyddiwyd y data hwn i lywio'r camau gweithredu yn y cynllun.

**Camau i'w cymryd**
Er gwybodaeth.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: athrawoncc.wmteachers@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg.

**Dogfennau cysylltiedig**
Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg
Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: crynodeb o gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, 2022 a 2024
Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: dadansoddiad data, 2022

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

ISBN digidol 978-1-83625-756-1
© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2024
WG50835

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Nod 1: Cynyddu nifer yr athrawon sy’n gallu addysgu’r Gymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg | 2 |
| Nod 2: Cynyddu nifer yr ymarferwyr sy’n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy’n cefnogi dysgwyr | 25 |
| Nod 3: Datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd a’i arbenigedd i addysgu’r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | 28 |
| Nod 4: Meithrin gallu arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan bob arweinydd y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol o fewn diwylliant o ysgolion fel sefydliadau sy’n dysgu. | 32 |

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd â 'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg'. Dyma'r ail ddadansoddiad data a gyhoeddwyd ac mae'n amlinellu'r newidiadau yn y data ers i'r dadansoddiad data cyntaf gael ei gyhoeddi yn 2022 er mwyn monitro a mireinio'r camau yn y cynllun hirdymor.

## Nod 1: Cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Cymraeg 2050 yn gosod targedau hirdymor ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon fel a ganlyn:


| Nifer yr athrawon cynradd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwaelodlin 2015 i 2016**<br>2,900 | **Targed 2021**<br>3,100 | **Targed 2031**<br>3,900 | **Targed 2050**<br>5,200 |
| **Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu'r Gymraeg fel pwnc** | | | |
| **Gwaelodlin 2015 i 2016**<br>500 | **Targed 2021**<br>600 | **Targed 2031**<br>900 | **Targed 2050**<br>1,200 |
| **Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg** | | | |
| **Gwaelodlin 2015 i 2016**<br>1,800 | **Targed 2021**<br>2,200 | **Targed 2031**<br>3,200 | **Targed 2050**<br>4,200 |

Er mwyn rhagweld nifer yr athrawon y bydd eu hangen i addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2021, 2031 a 2050, defnyddir amcanestyniadau o ddisgyblion, targedau'r Llywodraeth ynghylch addysg Gymraeg, yn ogystal â chyfraddau disgybl:athro ar gyfer y blynyddoedd hynny ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd. Petai nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn aros yr un faint, a'r amcanestyniadau o ran disgyblion yn gostwng, yna byddai hynny'n cael effaith anochel ar y targed ar gyfer nifer yr athrawon. Felly, nid oes modd edrych ar y targedau ar gyfer nifer yr athrawon ar eu pennau eu hunain.

Gellir gweld y data diweddaraf a gyhoeddwyd ynghylch cynnydd yn erbyn targedau Cymraeg 2050, wedi'u seilio ar flwyddyn academaidd 2023 i 2024, yn siart 1.1 isod.

Bydd y cynllun hwn yn mynd â ni hyd at dargedau 2031. Felly, o ystyried bod y nifer yn erbyn targedau 2021 yn brin, bydd nifer yr athrawon ychwanegol y bydd eu hangen erbyn 2031 fel ag yr amlinellir yn nhabl 1.2 isod.

**Siart 1.1: Nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**[1]




| | |
|---|---|
| 2023-24 | Cynradd = 2,792<br>Uwchradd = 2,549 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

[1] Nid yw athrawon cyflenwi wedi'u cynnwys yn y data hyn. Mae'r data ar athrawon cyflenwi ar gael yn nhabl 1.12

**Tabl 1.2: Nifer yr athrawon y mae eu hangen i fodloni targedau 2031**

| Nifer yr athrawon cynradd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwaelodlin 2020 i 2021** 2,871 | **Data 2023 i 2024** 2,792 | **Targed 2031** 3,900 | **Prinder o gymharu â'r targed** 1,108 | **Nifer yr athrawon ychwanegol fesul blwyddyn yn fras (rhwng 2024 a 2031)** 158 |
| **Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu'r Gymraeg fel pwnc** | | | | |
| **Gwaelodlin 2020 i 2021** 391 | **Data 2023 i 2024** 521 | **Targed 2031** 900 | **Prinder o gymharu â'r targed** 379 | **Nifer yr athrawon ychwanegol fesul blwyddyn yn fras (rhwng 2024 a 2031)** 54 |
| **Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg** | | | | |
| **Gwaelodlin 2020 i 2021** 2,004 | **Data 2023 i 2024** 2,029 | **Targed 2031** 3,200 | **Prinder o gymharu â'r targed** 1,171 | **Nifer yr athrawon ychwanegol fesul blwyddyn yn fras (rhwng 2024 a 2031)** 167 |

Ffynhonnell: CYBLD

Mae'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon yn cynhyrchu dau nifer o ran faint o unigolion a ddymunir, un ar gyfer anghenion y sector cynradd a'r llall ar gyfer y sector uwchradd. Rhoddir y rhain i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn yr hydref bob blwyddyn. Yna mae CGA yn pennu dyraniadau recriwtio ar lefel y rhaglen ar gyfer partneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) unigol ledled Cymru (ar wahân i'r Brifysgol Agored sy'n cynnig darpariaeth ran-amser a darpariaeth seiliedig ar gyflogaeth) ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol. Disgwylir y dylai partneriaethau AGA fod yn gweithio tuag at sefyllfa lle mae o leiaf 30% o'r nifer a dderbynnir yn flynyddol yn paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r niferoedd a ddymunir ar gyfer blwyddyn academaidd 2024 i 2025 i'w gweld yn nhabl 1.3 isod ac os bydd y partneriaethau AGA yn sicrhau bod 30% o'r myfyrwyr a dderbynnir yn flynyddol yn paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, dylai fod cyflenwad digonol o athrawon ar gyfer y sector yn y dyfodol.

**Tabl 1.3: Nifer yr athrawon newydd a ddymunir 2024 i 2025**

| | Israddedigion | Graddedigion | Cyfanswm | 30% yn gyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | 261 | 392 | 653 | 195 |
| **Uwchradd** | 0 | 1,056 | 1,056 | 316 |
| **Cyfanswm** | **261** | **1,448** | **1,709** | **511** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Wrth edrych ar y data ar nifer y myfyrwyr ar gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon sy'n paratoi i addysgu yn Gymraeg yn nhabl 1.4 isod, mae’n amlwg ein bod ar y llwybr cywir i allu cyrraedd y targed ar gyfer athrawon cynradd. Fodd bynnag, mae angen i'r nifer sy'n paratoi i addysgu mewn ysgolion uwchradd gynyddu'n sylweddol os ydym am gyrraedd y targedau. Mae angen inni ddyblu nifer y myfyrwyr sy'n paratoi i addysgu mewn ysgolion uwchradd er mwyn cyrraedd y targedau, ac nid yw hynny'n ystyried trosiant staff mewn ysgolion.

**Tabl 1.4: Myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru sy’n hyfforddi i addysgu drwy’r Gymraeg yn ôl lefel ysgol a blwyddyn[2]**

| | 2015 i 2016 | 2016 i 2017 | 2017 i 2018 | 2018 i 2019 | 2019 i 2020 | 2020 i 2021 | 2021 i 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb** | **245** | **235** | **210** | **175** | **235** | **335** | **325** |
| Ysgol gynradd | 150 | 145 | 110 | 95 | 145 | 190 | 210 |
| Ysgol uwchradd | 95 | 90 | 100 | 75 | 90 | 145 | 110 |

Ffynhonnell: StatsCymru

Yn ogystal â chyrsiau AGA llawn amser traddodiadol, ers 2020 i 2021 mae cyrsiau TAR newydd rhan-amser ac ar sail cyflogaeth ar gyfer addysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi'u darparu gan y Brifysgol Agored. Mae tabl 1.5 yn dangos nifer y cofrestriadau ar gyfer y TAR rhan-amser, a thabl 1.6 yn dangos nifer y cofrestriadau ar gyfer y TAR Cyflogedig. Mae lle i gynyddu nifer y cofrestriadau ar y ddau lwybr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol.

[2] StatsCymru

**Tabl 1.5: Cofrestriadau ar gyfer y TAR rhan-amser**

| | 2020 i 2021 | 2021 i 2022 | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|---|---|
| Cofrestriadau cyfrwng Cymraeg cynradd | * | 5 | 5 | 10 |
| Cofrestriadau cyfrwng Saesneg cynradd | 40 | 45 | 50 | 55 |
| **Cyfanswm y cofrestriadau cynradd** | **45** | **50** | **55** | **65** |
| Cofrestriadau cyfrwng Cymraeg uwchradd | 5 | * | * | * |
| Cofrestriadau cyfrwng Saesneg uwchradd | 5 | 20 | 15 | 15 |
| **Cyfanswm y cofrestriadau uwchradd** | **10** | **20** | **15** | **15** |
| **Cyfanswm y cofrestriadau rhan-amser** | **55** | **70** | **70** | **80** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
Cynrychiolir 1, 2 â ***.** Mae pob rhif arall wedi'i dalgrynnu i'r lluosrif o 5 agosaf.

**Tabl 1.6: Recriwtio ar gyfer y TAR ar sail cyflogaeth**

| | 2020 i 2021 | 2021 i 2022 | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|---|---|
| Cofrestriadau cyfrwng Cymraeg cynradd | 5 | 20 | 10 | 10 |
| Cofrestriadau cyfrwng Saesneg cynradd | 45 | 45 | 50 | 30 |
| **Cyfanswm y cofrestriadau cynradd** | **55** | **65** | **60** | **40** |
| Cofrestriadau cyfrwng Cymraeg uwchradd | 15 | 5 | 10 | 20 |
| Cofrestriadau cyfrwng Saesneg uwchradd | 15 | 20 | 30 | 30 |
| **Cyfanswm y cofrestriadau uwchradd** | **30** | **30** | **45** | **50** |
| **Cyfanswm y cofrestriadau cyflogedig** | **85** | **90** | **105** | **90** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
Cynrychiolir 1, 2 â ***.** Mae pob rhif arall wedi'i dalgrynnu i'r lluosrif o 5 agosaf.

Nid yw'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon yn manylu ar lefel pwnc unigol na'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, er mwyn deall yn well y galw am athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn meysydd pwnc allweddol, rydym wedi edrych ar

ddata hanesyddol ar gyfer cofrestriadau AGA (tabl 1.7) a nifer y swyddi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a hysbysebwyd yn ôl pwnc (tabl 1.8).

**Tabl 1.7: Myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru sy'n hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg yn ôl pwnc a blwyddyn (a)**

| | 2015 i 2016 | 2016 i 2017 | 2017 i 2018 | 2018 i 2019 | 2019 i 2020 | 2020 i 2021 | 2021 i 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb** | **95** | **90** | **100** | **75** | **90** | **145** | **110** |
| **Gwyddoniaeth gyffredinol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| **Bioleg** | 5 | 5 | 5 | 0 | 0 | 10 | 0 |
| **Cemeg** | 5 | 5 | 5 | 0 | 5 | 5 | 0 |
| **Ffiseg** | 5 | 0 | 0 | 5 | 0 | 5 | 5 |
| **Mathemateg** | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 15 | 5 |
| **Dylunio a thechnoleg** | 5 | 0 | 10 | 5 | 0 | 5 | 10 |
| **Technoleg gwybodaeth** | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Celf** | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 5 | 0 |
| **Busnes** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Drama** | 0 | 5 | 0 | 0 | 5 | 0 | 5 |
| **Saesneg** | 0 | 0 | 5 | 5 | 5 | 10 | 5 |
| **Daearyddiaeth** | 5 | 5 | 5 | 0 | 5 | 5 | 5 |
| **Hanes** | 5 | 5 | 5 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| **Ieithoedd tramor modern** | 10 | 15 | 15 | 10 | 20 | 10 | 15 |
| **Cerddoriaeth** | 0 | 0 | 5 | 5 | 0 | 5 | 0 |
| **Addysg gorfforol** | 15 | 10 | 10 | 10 | 10 | 25 | 10 |
| **Addysg grefyddol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 |
| **Cymraeg** | 25 | 35 | 25 | 15 | 20 | 30 | 35 |

Ffynhonnell: StatsCymru
(a) Nid yw data 2022 i 2023 wedi cael eu cyhoeddi eto oherwydd oedi yn derbyn y data gan HESA.

**Tabl 1.8: Nifer y swyddi cyfrwng Cymraeg a hysbysebwyd yn ôl pwnc a blwyddyn**

| | 2020 i 2021 | 2021 i 2022 | 2022 i 2023 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **396** | **555** | **708** |
| **Cyfanswm ysgolion cynradd** | **192** | **264** | **324** |
| **Cyfanswm ysgolion uwchradd** | **159** | **207** | **270** |
| **Pwnc amherthnasol** | 210 | 312 | 390 |
| **Penaethiaid heb ymrwymiadau addysgu** | 24 | 21 | 42 |
| **Rolau arwain eraill heb ymrwymiadau addysgu** | 18 | 30 | 42 |
| **Celf** | 3 | 3 | 3 |
| **Bioleg** | * | * | 3 |
| **Astudiaethau busnes** | . | * | * |
| **Cemeg** | . | * | 3 |
| **Drama/Theatr** | * | 3 | * |
| **Dylunio a thechnoleg** | 9 | 15 | 18 |
| **Saesneg** | 15 | 12 | 21 |
| **Daearyddiaeth** | * | 6 | . |
| **Hanes** | . | 3 | 3 |
| **TGCh** | * | 3 | 6 |
| **Mathemateg** | 15 | 15 | 27 |
| **Ieithoedd tramor modern** | 3 | 3 | 6 |
| **Cerddoriaeth** | 3 | 3 | 9 |
| **Addysg gorfforol** | 6 | 9 | 15 |
| **Ffiseg** | 6 | * | 3 |
| **Addysg bersonol a chymdeithasol** | * | . | * |
| **Addysg grefyddol** | 3 | 3 | 6 |
| **Gwyddoniaeth** | 15 | 21 | 21 |
| **Gwyddorau Cymdeithasol** | . | * | * |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwnc galwedigaethol** | * | * | * |
| **Bagloriaeth Cymru** | . | * | . |
| **Cymraeg** | 42 | 57 | 66 |
| **Dyniaethau eraill** | 9 | 3 | 6 |
| **Pynciau eraill** | 6 | 12 | 12 |

Ffynhonnell: CBGY
Mae'r gwerthoedd wedi'u talgrynnu i'r 3 agosaf. Lle bo'r nifer yn llai na 3 ond yn fwy na 0 (*), ni ddangoswyd y nifer.

Cynyddodd nifer y swyddi a hysbysebwyd yn 2023 ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Am athrawon mathemateg yr oedd y galw mwyaf o'r holl bynciau. Parhaodd y patrwm recriwtio ar gyfer pynciau eraill mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yr un fath fwy neu lai. Mae'n amlwg o'r data yn nhablau 1.7 ac 1.8 nad oes digon o athrawon newydd yn cymhwyso i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i lenwi'r swyddi gwag mewn rhai pynciau, er enghraifft mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg gwybodaeth. Y ffactor arall i'w ystyried yw y gallai lleoliad daearyddol y swyddi a'r athrawon cymwysedig fod yn wahanol.

Yn ogystal â'r rhai a enillodd statws athro cymwysedig (SAC) yng Nghymru, mae nifer o fyfyrwyr o Gymru yn hyfforddi i addysgu ym mhrifysgolion Lloegr. Mae data o CGA yn nhablau 1.9a ac 1.9b yn dangos faint o Athrawon Newydd Gymhwyso sydd wedi hyfforddi yn Lloegr ac wedi cofrestru wedyn gyda CGA yn ôl y gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfnod cyflogaeth. Mae tabl 1.10 yn cynnwys nifer yr Athrawon Newydd Gymhwyso hynny sydd wedi'u hyfforddi yn Lloegr sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae 26 o Athrawon

**1.9a: Nifer yr Athrawon Newydd Gymhwyso a hyfforddwyd yn Lloegr sydd wedi'u cofrestru gyda CGA yn ôl eu gallu i weithio yn Gymraeg**

| Yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydy | 16 | 13 | 16 | 27 | 28 | 36 | 28 | 30 |
| Nac ydy | 192 | 209 | 246 | 260 | 271 | 313 | 245 | 267 |
| **Cyfanswm** | **208** | **222** | **262** | **287** | **299** | **349** | **273** | **297** |

Ffynhonnell: CGA

**Tabl 1.9b: Nifer yr Athrawon Newydd Gymhwyso a hyfforddwyd yn Lloegr sydd wedi'u cofrestru gyda CGA yn ôl cyfnod a gallu yn y Gymraeg**

| Cyfnod cyflogaeth a gallu yn y Gymraeg | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 8 | 1 | 2 | 12 | 10 | 10 | 6 | 10 |
| Canol | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 3 | 0 |
| Uwchradd | 2 | 5 | 4 | 3 | 7 | 5 | 0 | 10 |
| Arbennig | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 | 2 |
| Uned cyfeirio disgyblion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyflenwi | 3 | 3 | 7 | 5 | 8 | 17 | 10 | 5 |
| Eraill sy'n gwasanaethu / nad ydynt yn gwasanaethu | 3 | 3 | 3 | 7 | 2 | 3 | 7 | 3 |
| **Cyfanswm** | **16** | **13** | **16** | **27** | **28** | **36** | **28** | **30** |

Ffynhonnell: CGA

**Tabl 1.10: Nifer yr Athrawon Newydd Gymhwyso a hyfforddwyd yn Lloegr sydd wedi'u cofrestru gyda CGA yn ôl cyfrwng yr ysgol**

| Cyfrwng yr ysgol | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg | 4 | 6 | 6 | 6 | 16 | 17 | 9 | 17 |
| Cyfrwng Saesneg | 92 | 95 | 117 | 107 | 105 | 118 | 92 | 158 |
| Anhysbys | 112 | 121 | 139 | 174 | 178 | 214 | 172 | 122 |
| **Cyfanswm** | **208** | **222** | **262** | **287** | **299** | **349** | **273** | **297** |

Ffynhonnell: CGA

At hynny, mae nifer o athrawon yn gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sydd â'r gallu i addysgu yn Gymraeg. Er bod angen inni hefyd gynyddu nifer yr athrawon Cymraeg eu hiaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, efallai y bydd cyfleoedd i ystyried

cydweithio agosach rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, yn enwedig mewn meysydd pwnc lle mae prinderau allweddol.

Mae tabl 1.11 yn cynnwys data ar nifer yr athrawon (nifer yr unigolion a'r nifer cyfwerth â pherson llawn[34]) sydd â sgiliau Cymraeg canolradd, uwch neu hyfedr sy'n addysgu pynciau i Flynyddoedd 7-14 mewn ysgolion canol ac uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae nifer yr athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi parhau'n gymharol sefydlog rhwng 2020 (1,425) a 2023 (1,455). Mae rhai pynciau gwerth eu nodi (er enghraifft mathemateg, dylunio a thechnoleg, Saesneg, ieithoedd tramor modern a gwyddoniaeth) lle y gallai cydweithio agosach rhwng sectorau ddarparu cyfleoedd i athrawon ennill hyder i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Tabl 1.11: Athrawon (unigolion a chyfwerth â pherson llawn) â sgiliau canolradd neu uwch yn y Gymraeg sy'n addysgu blynyddoedd 7 i 14 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ôl pwnc, Tachwedd 2020 a Thachwedd 2023**

| | Tachwedd 2020 | | Tachwedd 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Unigolion | Cyfwerth â Pherson Llawn | Unigolion | Cyfwerth â Pherson Llawn |
| Celf | 50 | 30 | 60 | 30 |
| Bioleg | 35 | 15 | 35 | 15 |
| Astudiaethau busnes | 25 | 10 | 30 | 10 |
| Cemeg | 30 | 15 | 35 | 15 |
| Dylunio a thechnoleg | 100 | 55 | 150 | 55 |
| Drama/theatre | 45 | 15 | 55 | 20 |
| Peirianneg | 10 | * | 10 | * |
| Saesneg | 170 | 110 | 165 | 100 |
| Daearyddiaeth | 50 | 25 | 65 | 30 |

[3] Cyfrifir pob unigolyn unwaith yn erbyn pob pwnc y mae'n ei addysgu. Fodd bynnag, ar gyfer y cyfanswm dim ond unwaith y cyfrifir unigolion, ni waeth faint o bynciau gwahanol y maent yn eu haddysgu. Ni fydd cyfanswm yr unigolion yn cyfateb i nifer yr unigolion fesul pwnc, felly.
[4] Cyfwerth â Pherson Llawn (FPE) yw'r gyfran o gyfanswm yr amser addysgu a dreulir yn addysgu pwnc penodol. Os bydd athro/athrawes yn treulio hanner eu hamser addysgu yn addysgu pwnc X a hanner eu hamser yn addysgu pwnc Y, byddant yn cael eu cofnodi fel rhai sydd â FPE o 0.5 yn erbyn y naill bwnc a'r llall. Mae FPE o 10 yn erbyn pwnc penodol yn cyfateb i 10 o athrawon sy'n treulio eu holl amser addysgu yn addysgu'r pwnc hwnnw. Bydd cyfanswm FPE person bob amser yn cyfateb i un (ni waeth faint o wahanol bynciau y maent yn eu haddysgu), felly mae cyfanswm yr FPE yn cyfateb i gyfanswm nifer yr athrawon sy'n addysgu

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hanes** | 80 | 50 | 90 | 60 |
| **TGCh** | 70 | 30 | 70 | 25 |
| **Mathemateg** | 125 | 100 | 135 | 105 |
| **Ieithoedd tramor modern** | 100 | 65 | 125 | 55 |
| **Cerddoriaeth** | 60 | 35 | 55 | 35 |
| **Addysg bersonol a chymdeithasol** | 150 | 15 | 180 | 15 |
| **Addysg gorfforol** | 140 | 90 | 140 | 85 |
| **Ffiseg** | 25 | 5 | 25 | 10 |
| **Addysg grefyddol** | 110 | 50 | 100 | 55 |
| **Gwyddoniaeth** | 125 | 80 | 145 | 80 |
| **Gwyddorau cymdeithasol** | 35 | 15 | 45 | 15 |
| **Pwnc galwedigaethol** | 85 | 25 | 100 | 30 |
| **Bagloriaeth Cymru** | 180 | 40 | 160 | 35 |
| **Cymraeg** | 625 | 495 | 680 | 510 |
| **Dyniaethau eraill** | 45 | 15 | 35 | 10 |
| **Pynciau eraill** | 210 | 45 | 170 | 40 |
| **Cyfanswm y pynciau** | **1,425** | **1,425** | **1,455e** | **1,455** |

Ffynhonnell: CBGY

Mae’r gwerthoedd wedi’u talgrynnu i’r 5 agosaf.
Lle bo’r nifer yn llai na 5 ond yn fwy na 0 (*), ni ddangoswyd y nifer.

Yn ogystal â nifer yr athrawon sy’n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, fel y’u cofnodir yn CYBLD bob blwyddyn (tabl 1.1), mae yna weithlu cyflenwi hefyd sy’n galluogi ysgolion i ddarparu gwersi neu gymorth ychwanegol mewn ysgolion. Efallai bod rhai o’r athrawon cyflenwi hyn wedi’u cyfrif yn nata CYBLD gan y byddent wedi bod mewn ysgolion ar ddyddiad y cyfrifiad, ac efallai bod eraill yn gweithio fel cynorthwywyr addysgu. Serch hynny, mae’n dal i fod yn bwysig rhoi sylw i’r garfan hon o’r gweithlu yn ein gwaith cynllunio, gan fod y galw am staff cyflenwi wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl data CGA, yn 2024 roedd 808 o athrawon cyflenwi yng Nghymru yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r gronfa hon o unigolion wedi lleihau tua 20% ers 2019.

**Tabl 1.12 Nifer yr athrawon cyflenwi sydd wedi'u cofrestru gyda CGA sydd â'r gallu i addysgu yn y Gymraeg**

| Yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydy | 1,023 | 1,015 | 869 | 810 | 738 | 808 |
| Nac ydy | 3,736 | 3,605 | 3,336 | 3,229 | 3,107 | 3175 |
| Anhysbys | 0 | 15 | 17 | 19 | 17 | 24 |
| **Cyfanswm** | **4,759** | **4,635** | **4,222** | **4,058** | **3,867** | **4,008** |

Ffynhonnell: CGA

Gan fod athrawon cyflenwi'n cael eu dosbarthu i ysgolion gan asiantaethau lle bynnag y mae eu hangen yn hytrach na chael eu cyflogi gan ysgol benodol, nid yw'n bosibl cofnodi'r cyfnod y maent yn gweithio ynddo gan y gall fod yn amrywiol. Fodd bynnag, o edrych ar y data ar gyfer y cyfnod y mae'r athrawon cyflenwi wedi hyfforddi ar ei gyfer yn nhabl 1.13, mae'n glir nad yw nifer yr athrawon sydd ar gael yn ddigonol i gyrraedd targedau nifer athrawon Cymraeg 2031 gan ganiatáu gweithlu digonol ar yr un pryd i gynnig darpariaeth ychwanegol i ysgolion. Mae'r nifer wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Tabl 1.13: Athrawon cyflenwi yn ôl eu gallu i addysgu yn y Gymraeg ac yn ôl hyfforddiant o fewn cyfnod penodol yn 2021 i 2024**

| | Yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021 | % | 2023 | % | 2024 | % |
| Hyfforddiant cynradd | 488 | 21.0% | 434 | 19.9 | 527 | 21.7 |
| Hyfforddiant uwchradd | 233 | 16.0% | 206 | 15.7 | 202 | 16.7 |
| Anhysbys | 148 | 33.7% | 98 | 26.3 | 79 | 24.2 |
| Cyfanswm | **869** | **20.6%** | **738** | **19.1** | **808** | **20.2** |

Ffynhonnell: CGA

Ystyriaeth arall wrth nodi faint o athrawon newydd sydd eu hangen yn flynyddol yw nifer yr athrawon sy'n aros yn y proffesiwn. Mae data yn nhablau 1.14a ac 1.14b sy'n olrhain athrawon cofrestredig dros gyfnod o bum mlynedd a deng mlynedd yn dangos:

- o’r rhai a enillodd SAC yn 2017 i 2018, aeth tua 95% ymlaen i gofrestru gyda CGA
- erbyn 2024, roedd bron i bob un o’r rhai a oedd yn addysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg yn 20217 i 2018 yn parhau i wneud hynny
- o’r rhai a gofrestrodd gyda CGA yn 2012 i 2013, roedd 435 yn gallu siarad Cymraeg, a 336 yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg
- dros gyfnod o 10 mlynedd, roedd tua 60% o’r athrawon a enillodd SAC yn 2012 i 2013 yn parhau i fod wedi’u cofrestru gyda CGA erbyn Mawrth 2024
- o’r 834 a oedd yn dal i fod mwn swydd addysgu ym mis Mawrth 2024, roedd bron i 22% yn addysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.

Ar sail y data yn nhablau 1.14a ac 1.14b, gellid rhagdybio nad yw rhwng 25% a 30% o’r athrawon sydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dal i fod yno 5 neu 10 mlynedd yn ddiweddarach.

**Tabl 1.14a: Nifer yr athrawon y dyfernir statws SAC iddynt ac sy’n parhau i fod wedi’u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg dros gyfnod o 5 mlynedd**

| | AGA Cymru 2016 i 2017 | Y Gymraeg | | Cyfrwng yr ysgol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Yn gallu siarad Cymraeg | Yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | Ysgol cyfrwng Cymraeg | Ysgol cyfrwng Saesneg |
| Nifer y myfyrwyr a gafodd SAC | 1,235 | Amh | Amh | Amh | Amh |
| Wedi’u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer blwyddyn gofrestru 2018 i 2019 / wedi ymuno â’r proffesiwn | 1,173 | 368 | 284 | 180 | 554 |
| Wedi’u cofrestru ym Mawrth 2024 | 896 | 309 | 242 | 178 | 562 |

Ffynhonnell: CGA

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn edrych ar ran o’r Gofrestr o Ymarferwyr Addysg ar 1 Mawrth bob blwyddyn.

Dim ond ar gyfer y rhai a gafodd SAC ac a gofrestrwyd wedyn gyda Chyngor y Gweithlu Addysg y cedwir manylion ynghylch eu gallu yn y Gymraeg

**Tabl 1.14b: Nifer yr athrawon y dyfernir statws SAC iddynt ac sy’n parhau i fod wedi’u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg dros gyfnod o 10 mlynedd**

| | AGA Cymru 2012 i 2013 | Y Gymraeg | | Cyfrwng yr ysgol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Yn gallu siarad Cymraeg | Yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | Ysgol cyfrwng Cymraeg | Ysgol cyfrwng Saesneg |
| Number y myfyrwyr a gafodd SAC | 1,425 | Amh | Amh | Amh | Amh |
| Wedi’u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer blwyddyn gofrestru 2013 i 2014 / wedi ymuno â’r proffesiwn | 1,285 | 435 | 336 | N/A | N/A |
| Wedi’u cofrestru ym Mawrth 2023 | 834 | 304 | 241 | 183 | 520 |

Ffynhonnell CGA

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn edrych ar ran o’r Gofrestr o Ymarferwyr Addysg ar 1 Mawrth bob blwyddyn.
Dim ond ar gyfer y rhai a gafodd SAC ac a gofrestrwyd wedyn gyda Chyngor y Gweithlu Addysg y cedwir manylion ynghylch eu gallu yn y Gymraeg.
Nid oes gwybodaeth am ysgolion penodol ar gael ar gyfer 2013, felly ni allwn nodi dadansoddiad yn ôl cyfrwng yr ysgol yn 2013.
Os bydd tua un o bob pump o'r rhai sy'n gallu addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gadael y proffesiwn dros gyfnod o 10 mlynedd, yna bydd angen i ni roi cyfrif am y gostyngiad hwn wrth fynd ati i flaengynllunio.

Mae’r CBGY yn caniatáu inni ddefnyddio setiau dilynol o ddata sy’n edrych ar nifer yr athrawon sy’n gadael eu swyddi rhwng un flwyddyn a’r llall. Mae tabl 1.15a yn dangos cyfanswm nifer yr athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg rhwng 2019 a 2023, ac mae tablau 1.15b ac 1.15c yn dangos y rheini sydd wedi gadael ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg rhwng 2019 a 2020, a rhwng 2022 a 2023 yn y drefn honno. Mae’r tablau yn nodi p’un a ydynt wedi gadael y proffesiwn,

wedi symud i rôl nad yw'n ymwneud ag addysgu (er enghraifft arweinyddiaeth), wedi symud i ysgol ganol neu i ysgol cyfrwng Saesneg. Yn gyffredinol, mae nifer yr athrawon cynradd ac uwchradd sydd wedi gadael eu rôl addysgu wedi cynyddu rhwng 2022 a 2023. Gallai hyn fod o ganlyniad i'r ffaith bod y staff ychwanegol a benodwyd i helpu i ddod dros Covid-19, y talwyd amdanynt â'r cyllid ychwanegol a roddwyd i ysgolion, bellach wedi gadael.

**Tabl 1.15a: Athrawon dosbarth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg (a, b)**

| Blwyddyn | Cynradd | Uwchradd | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|
| 2019 | 2,685 | 2,250 | 4,935 |
| 2020 | 2,750 | 2,270 | 5,020 |
| 2021 | 2,850 | 2,285 | 5,135 |
| 2022 | 2,860 | 2,260 | 5,120 |
| 2023 | 2,790 | 2,175 | 4,960 |

Ffynhonnell: CBGY

**Tabl 1.15b: Athrawon dosbarth sydd wedi gadael rôl addysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg rhwng 2019 a 2020 (a, b)**

| Categori o athrawon a adawodd | Cynradd | | Uwchradd | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Y gyfran o'r athrawon | Nifer | Y gyfran o'r athrawon | Nifer | Y gyfran o'r athrawon |
| **Cyfanswm nifer yr athrawon a adawodd (c)** | **235** | **8.7%** | **235** | **10.5%** | **470** | **9.5%** |
| (o gyfanswm nifer yr athrawon a adawodd (ch)) | | | | | | |
| Yr athrawon a adawodd y proffesiwn (d) | 170 | 6.3% | 130 | 5.7% | 295 | 6.0% |
| Yr athrawon a symudodd i rôl nad yw'n ymwneud ag addysgu | 50 | 1.9% | 30 | 1.4% | 80 | 1.7% |
| Yr athrawon a symudodd i ysgol ganol | 5 | 0.2% | 65 | 2.8% | 70 | 1.4% |
| Yr athrawon a symudodd i ysgol cyfrwng Saesneg | 10 | 0.4% | 15 | 0.7% | 25 | 0.5% |

Ffynhonnell: CBGY

**Tabl 1.15c: Athrawon dosbarth sydd wedi gadael rôl addysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg rhwng 2022 a 2023 (a, b)**

| Categori o athrawon a adawodd | Cynradd | | Uwchradd | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Y gyfran o'r athrawon | Nifer | Y gyfran o'r athrawon | Nifer | Y gyfran o'r athrawon |
| **Cyfanswm nifer yr athrawon a adawodd (c)** | **305** | **10.7%** | **260** | **11.6%** | **565** | **11.1%** |
| (o gyfanswm nifer yr athrawon a adawodd (ch)) | | | | | | |
| Yr athrawon a adawodd y proffesiwn (d) | 235 | 8.3% | 160 | 7.1% | 395 | 7.7% |
| Yr athrawon a symudodd i rôl nad yw'n ymwneud ag addysgu | 50 | 1.7% | 20 | 0.8% | 70 | 1.3% |
| Yr athrawon a symudodd i ysgol ganol | 10 | 0.3% | 15 | 0.6% | 25 | 0.5% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr athrawon a symudodd i ysgol cyfrwng Saesneg | 15 | 0.5% | 70 | 3.1% | 85 | 1.6% |

Ffynhonnell: CBGY

Nodiadau:
Talgrynnwyd nifer yr unigolion i'r 5 agosaf. Mae'r canrannau yn seiliedig ar ffigurau nad ydynt wedi'u talgrynnu.
(a) Mae'r athrawon yn cynnwys penaethiaid cynorthwyol, ymarferwyr arweiniol, athrawon cymwysedig, athrawon nad ydynt wedi cymhwyso ac athrawon eraill.
(b) Mae 'cyfrwng Cymraeg' yn cynnwys darpariaeth dwy ffrwd, darpariaeth drosiannol a darpariaeth ddwyieithog.
(c) Yn cynnwys athrawon a gofnodwyd mewn ysgol gynradd/uwchradd cyfrwng Cymraeg yn 2022, ond na chofnodwyd mewn rôl addysgu (gweler nodyn (a)) /sector/ cyfrwng ysgol yn 2023.
(ch) Gellir cofnodi yr un unigolyn o dan fwy nag un o'r categorïau canlynol (hy gallai athro symud i ysgol cyfrwng Saesneg fel dirprwy bennaeth - byddai'r unigolyn hwn yn cael ei gofnodi o dan 'symud i rôl nad yw'n ymwneud ag addysgu' ac o dan 'symud i ysgol cyfrwng Saesneg'.
(d) Yn cynnwys athrawon a gofnodwyd yn 2022 ond nid yn 2023 (beth bynnag eu rôl, eu sector neu gyfrwng eu hysgol).

O edrych ar y data ar sail ranbarthol, mae tablau 1.16a ac 1.16b yn dangos yr athrawon sydd wedi gadael y proffesiwn yn ôl sector a rhanbarth rhwng 2019 a 2020, a rhwng 2022 a 2023. Mae lleoliad cyfran uchaf y nifer sydd wedi gadael wedi newid o'r de-ddwyrain i'r de-orllewin a'r canolbarth.

**Tabl 1.16a: Athrawon dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd wedi gadael y proffesiwn rhwng 2019 a 2020 yn ôl sector a rhanbarth (a, b, c)**

| | Cynradd | | Uwchradd | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhanbarth** | **Nifer** | **Y gyfran o'r athrawon** | **Nifer** | **Y gyfran o'r athrawon** | **Nifer** | **Y gyfran o'r athrawon** |
| Y Gogledd | 65 | 7.2% | 50 | 5.9% | 120 | 6.6% |
| Y De-orllewin a'r Canolbarth | 55 | 5.6% | 45 | 5.5% | 100 | 5.6% |
| Canol De Cymru | 30 | 5.1% | 20 | 5.2% | 45 | 5.2% |
| Y De-ddwyrain | 15 | 8.0% | 15 | 6.6% | 30 | 7.3% |
| **Cymru** | **170** | **6.3%** | **130** | **5.7%** | **295** | **6.0%** |

Ffynhonnell: CBGY

**Tabl 1.16b: Athrawon dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd wedi gadael y proffesiwn rhwng 2022 a 2023 yn ôl sector a rhanbarth (a, b, c)**

| | Cynradd | | Uwchradd | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhanbarth | Nifer | Y gyfran o'r athrawon | Nifer | Y gyfran o'r athrawon | Nifer | Y gyfran o'r athrawon |
| Y Gogledd | 80 | 7.7% | 75 | 7.4% | 150 | 7.6% |
| Y De-orllewin a'r Canolbarth | 100 | 9.6% | 40 | 5.9% | 145 | 8.1% |
| Canol De Cymru | 35 | 6.3% | 40 | 9.9% | 75 | 7.8% |
| Y De-ddwyrain | 20 | 9.1% | 5 | 3.3% | 25 | 6.6% |
| **Cymru** | **235** | **8.3%** | **160** | **7.1%** | **395** | **7.7%** |

Ffynhonnell: CBGY

Talgrynnwyd nifer yr unigolion i'r 5 agosaf. Mae'r canrannau yn seiliedig ar ffigurau nad ydynt wedi'u talgrynnu.

Nodiadau:
(a) Yn cynnwys penaethiaid cynorthwyol, ymarferwyr arweiniol, athrawon cymwysedig, athrawon nad ydynt wedi cymhwyso ac athrawon eraill.
(b) Yn cynnwys unigolion a gofnodwyd yng nghasgliad CBGY 2019, ond nid casgliad CBGY 2020.
(c) Mae 'cyfrwng Cymraeg' yn cynnwys darpariaeth dwy ffrwd, darpariaeth drosiannol a darpariaeth ddwyieithog.

Wrth inni gasglu mwy o ddata blynyddol drwy gasgliad CBGY, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddeall yn well y patrwm o ran y nifer sy'n gadael ac yn symud i ysgolion eraill dros amser.

Mae'r cynllun pontio i roi cymorth i athrawon â SAC sydd wedi cymhwyso i addysgu yn y sector cynradd wedi bod yn rhedeg, bellach, dros 4 blwyddyn academaidd. Mae 60 o unigolion wedi cymryd rhan yn y Cynllun Pontio.

I grynhoi, os ydym am gyrraedd targedau Cymraeg 2050, gan ystyried y data a'r ymyriadau cyfredol, byddai'r niferoedd a ragwelir fel a ganlyn:

**Tabl 1.17: Nifer yr athrawon ychwanegol a gafodd eu hyfforddi bob blwyddyn yn fras**

| | | Camau i hyfforddi neu gynyddu nifer yr athrawon | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | Nifer yr athrawon ychwanegol sy'n ofynnol bob blwyddyn yn fras, ar sail targedau Cymraeg 2050 | Hyfforddi i addysgu'n Gymraeg drwy bartneriaethau AGA 2021 i 2022 | Hyfforddi i addysgu'n Gymraeg drwy lwybrau amgen 2022 i 2023 | Hyfforddi yn Lloegr, dod yn ôl i addysgu'n Gymraeg 2024 | Nifer ar y cynllun pontio 2023 i 2024 | Cyfanswm nifer yr athrawon a hyfforddwyd yng Nghymru neu gapasiti ychwanegol drwy ddulliau eraill |
| Cynradd | 158 | 210 | 20 | 10 | | 240 |
| Uwchradd | 221 | 110 | 20 | 10 | 16 | 156 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Gan ystyried nifer yr athrawon sy'n ofynnol er mwyn cyrraedd targedau Cymraeg 2050, y nifer yn fras a dderbynnir drwy AGA neu ddulliau eraill, y nifer sy'n gadael a'r stoc o athrawon newydd sydd ei angen ar hyn o bryd yn ôl y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon, rhagwelir bod angen 393 o athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg newydd a 381 o athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd bob blwyddyn drwy AGA neu ddulliau eraill (er enghraifft o Loegr), fel yr amlinellir yn nhabl 1.18.

**Tabl 1.18: Nifer yr athrawon sy'n ofynnol bob blwyddyn yn fras**

| | A | B | C | D | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | Nifer yr athrawon ychwanegol sy'n ofynnol bob blwyddyn yn fras, ar sail targedau Cymraeg 2050 | Cyfanswm nifer yr athrawon a hyfforddwyd yn fras neu gapasiti ychwanegol (Tabl 1.17) | Y nifer sy'n gadael (Tabl 1.15c) | Yr athrawon ychwanegol sy'n ofynnol bob blwyddyn er mwyn cyrraedd targedau Cymraeg 2050 | Nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg y rhagwelir a ddaw drwy AGA bob | Yr athrawon cyfrwng Cymraeg sy'n ofynnol bob blwyddyn (B + D) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **uwchlaw’r nifer sy’n dod drwy AGA neu ddulliau eraill ar hyn o bryd (B-C-A)** | **blwyddyn (Tabl 1.3)** | |
| Cynradd | 158 | 240 | 235 | 153 | 196 | 393 |
| Uwchradd | 221 | 156 | 160 | 225 | 319 | 381 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae’n glir mai yn y sector uwchradd y mae’r her, lle mae angen 225 o athrawon ychwanegol uwchlaw’r nifer sy’n dod drwy AGA ar hyn o bryd a’r dulliau recriwtio eraill. Yn y sector cynradd, byddai angen cynyddu’r nifer y rhagwelir eu derbyn drwy AGA ar hyn o bryd er mwyn diwallu’r angen am 153 o athrawon ychwanegol uwchlaw’r rheini sydd eisoes yn cael eu hyfforddi neu wedi’u hyfforddi. Mae targedau Cymraeg 2050 o ran nifer athrawon yn seiliedig ar y twf a ragwelir yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac mae pob awdurdod lleol wedi pennu targedau ar gyfer y twf hwn yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Os na chyrhaeddir targedau’r awdurdodau lleol, byddai’r angen am athrawon ychwanegol yn amrywio.

Fel yr amlinellir yn y cynllun, ni allwn ganolbwyntio ar gynyddu AGA yn unig er mwyn sicrhau cyflenwad o athrawon cyfrwng Cymraeg. Mae angen i ni sicrhau bod digon o ddysgwyr yn symud ymlaen drwy addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel TGAU, Safon Uwch ac fel israddedigion. Mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol yn allweddol o ran cefnogi'r cynnydd mewn TGAU a Safon Uwch tra bo’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gyfrifol am gynyddu nifer y myfyrwyr prifysgol sy'n astudio rhan neu'r cwbl o'u graddau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er mwyn dangos hyn, rydym wedi edrych ar ddilyniant mewn pedwar pwnc, Cymraeg a mathemateg, TGCh ac ieithoedd modern. Mae tabl 1.19 yn rhoi syniad o sut y gallai myfyrwyr sy’n astudio Cymraeg neu bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg symud ymlaen ar hyd eu llwybr dysgu drwy TGAU i Safon Uwch ac ymlaen at bynciau gradd. Mae’r data yn nhabl 1.19 yn defnyddio data sydd wedi’u paru i olrhain dysgwyr drwy eu haddysg. Os nad yw dysgwr wedi’i baru fel rhan o broses paru data addysg, ni chaiff ei gynnwys. Ni ddangosir pob myfyriwr Safon Uwch a myfyriwr sydd wedi ennill gradd addysg uwch, dim ond dysgwyr a safodd arholiadau neu a raddiodd yn ystod y blynyddoedd a nodwyd, ac y gellir eu paru’n ôl i’w TGAU sydd wedi’u cynnwys. Gallai dysgwyr eraill fod wedi dilyn llwybrau gwahanol, er enghraifft cymryd blwyddyn i ffwrdd, ac ni chaiff y rhain eu cynnwys. Er enghraifft, cymerodd 5,285 o ddysgwyr TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2015/16, aeth 250 o’r dysgwyr hynny ymlaen wedyn i astudio Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf yn 2017/18. Yn 2020/21, graddiodd 50 o’r dysgwyr hynny yn y Gymraeg. O fesur faint o amser y 50 dysgwr a oedd yn cael ei

dreulio yn astudio'r Gymraeg, roedd yn cyfateb i 35 dysgwr. Roedd graddau rhai dysgwyr, felly, mewn mwy nag un pwnc – ee 50% Cymraeg a 50% Mathemateg.

Ar wahân i'r rhai a oedd yn astudio Cymraeg fel pwnc, graddiodd llai na 5, os hynny, mewn Mathemateg, TGCh neu Ieithoedd Tramor Modern drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n dal i fod angen hyrwyddo a datblygu cyfleoedd i ddysgwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol. Mae'r datganiad diweddaraf ar y Gymraeg mewn addysg uwch yn darparu dadansoddiad pellach o nifer y myfyrwyr, ac roedd rhai yn addysgu drwy'r Gymraeg rhwng Medi 2021 ac Awst 2022.

**Tabl 1.19 Nifer y myfyrwyr yn cofrestru ar gyfer arholiadau TGAU mewn Cymraeg fel pwnc a/neu mewn Mathemateg, TGCh neu Ieithoedd Tramor Modern yn ôl iaith yr arholiad. Nifer y myfyrwyr TGAU hynny a aeth ymlaen i sefyll arholiadau Safon Uwch yn ôl iaith, a nifer y dysgwyr hynny a enillodd radd gyntaf mewn Cymraeg fel pwnc neu mewn Mathemateg, TGCh neu Ieithoedd Tramor Modern a oedd yn cynnwys rhywfaint o ddysgu drwy'r Gymraeg**

| Cymraeg | TGAU 2015/16 [Nodyn 1] | | Safon Uwch 2017/18 [Nodyn 2] | | Gradd Addysg Uwch 2020/21 [Nodyn 3] yn y Gymraeg | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Nifer | Cyfwerth â Pherson Llawn |
| | Iaith gyntaf | 5,285 | Iaith gyntaf | 245 | 50 | 35 |
| | Ail iaith | 10,815 | Ail iaith | 250 | 15 | 15 |

| Mathemateg | TGAU 2015/16 [Nodyn 1] | | Safon Uwch 2017/18 [Nodyn 2] | | Gradd Addysg Uwch 2020/21 [Nodyn 3] trwy'r Gymraeg | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Nifer | Cyfwerth â Pherson Llawn |
| | Yn Gymraeg | 4,180 | Yn Gymraeg | 380 | [c] | [c] |
| | | | Yn Saesneg | 95 | [c] | [c] |
| | Yn Saesneg | 27,110 | Yn Gymraeg | [c] | [c] | [c] |
| | | | Yn Saesneg | 2,155 | [c] | [c] |

| TGCh | TGAU 2015/16 [Nodyn 1] | Safon Uwch 2017/18 [Nodyn 2] | Gradd Addysg Uwch 2020/21 [Nodyn 3] trwy'r Gymraeg |
|---|---|---|---|

| | | | | | Nifer | Cyfwerth â Pherson Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Yn Gymraeg | 645 | Yn Gymraeg | 20 | [c] | [c] |
| | | | Yn Saesneg | 20 | [c] | [c] |
| | Yn Saesneg | 5,690 | Yn Gymraeg | [c] | [c] | [c] |
| | | | Yn Saesneg | 490 | [c] | [c] |

| Ieithoedd Tramor Modern | TGAU 2015/16 [Nodyn 1] | | Safon Uwch 2017/18 [Nodyn 2] | | Gradd Addysg Uwch 2020/21 [Nodyn 3] trwy'r Gymraeg | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Nifer | Cyfwerth â Pherson Llawn |
| | Yn Gymraeg | 865 | Yn Gymraeg | 70 | [c] | [c] |
| | | | Yn Saesneg | 15 | [c] | [c] |
| | Yn Saesneg | 5,610 | Yn Gymraeg | [c] | [c] | [c] |
| | | | Yn Saesneg | 405 | [c] | [c] |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Talgrynnwyd pob ffigur i'r 5 agosaf.
[c] = cyfrinachol: ffigur llai na 5 a dynnwyd er mwyn gwarchod cyfrinachedd testunau'r data, neu ffigur sy'n seiliedig ar niferoedd bach ac felly'n annibynadwy yn ystadegol

**Nodyn 1: TGAU**

- Myfyrwyr a safodd arholiadau TGAU yn 2015/16 mewn Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith), Mathemateg, TG ac Ieithoedd Tramor Modern, yn ôl iaith yr arholiad (Cymraeg neu Saesneg).
- Efallai bod dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi astudio ar gyfer yr arholiad drwy'r Gymraeg, ond wedi sefyll y papur arholiad drwy'r Saesneg, a byddant wedi'u cynnwys yn y ffigurau hyn fel rhai a safodd y TGAU drwy'r Saesneg.
- Mae'r cyfansymiau yn dangos yr unigolion a safodd yr arholiadau, nid yr unigolion a gofrestrwyd i sefyll yr arholiadau, ac felly mae'r cyfansymiau fymryn yn wahanol i'r cyfansymiau a gyhoeddwyd ar gyfer yr unigolion a gofrestrwyd i sefyll arholiadau.
- Efallai bod dysgwr wedi cofrestru ar gyfer mwy nag un arholiad mewn pwnc, ond mae'n dal i gael ei gyfrif fel un unigolyn.
- Mae Cymraeg iaith gyntaf yn cynnwys TGAU llenyddiaeth Gymraeg.

- Caiff Cymraeg iaith gyntaf ei sefyll drwy'r Gymraeg, caiff Cymraeg ail iaith ei sefyll drwy'r Saesneg.
- Yn y cyfansymiau ar gyfer ieithoedd tramor modern, efallai bod dysgwr wedi cofrestru ar gyfer un arholiad iaith yn Gymraeg ac ar gyfer un arall yn Saesneg, ac felly caiff ei gyfrif ddwywaith yn y cyfanswm cyffredinol.

**Nodyn 2: Safon Uwch**

- Myfyrwyr a safodd arholiadau TGAU yn 2015/16 (mewn Cymraeg, Mathemateg, TG neu Ieithoedd Tramor Modern), ac a aeth ymlaen i sefyll arholiadau Safon Uwch yn 2017/18 mewn Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith), Mathemateg, TG ac Ieithoedd Tramor Modern, yn ôl iaith yr arholiad (Cymraeg neu Saesneg).
- Efallai bod dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi astudio ar gyfer yr arholiad drwy'r Gymraeg, ond wedi sefyll y papur arholiad drwy'r Saesneg, a byddant wedi'u cynnwys yn y ffigurau hyn fel rhai a safodd y TGAU drwy'r Saesneg.
- Dim ond dysgwyr sydd wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau TGAU sydd wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau Safon Uwch. Efallai bod dysgwyr eraill wedi sefyll arholiadau Safon Uwch yn 2017/18, ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn y garfan hon.
- Efallai bod dysgwyr a safodd arholiadau TGAU yn 2015/16 wedi sefyll arholiadau Safon Uwch yn y pynciau hyn mewn blynyddoedd academaidd eraill, ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau hyn.
- Caiff Cymraeg iaith gyntaf ei sefyll drwy'r Gymraeg, caiff Cymraeg ail iaith ei sefyll drwy'r Saesneg.

**Nodyn 3: Graddedigion**

- Myfyrwyr a enillodd radd gyntaf mewn Cymraeg, Mathemateg neu Gyfrifiadureg yn 2020/21, ac Ieithoedd Tramor Modern yn 2021/22 (cwrs 4 blynedd), a oedd yn cynnwys rhywfaint o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dim ond dysgwyr sydd wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau TGAU yn y tabl sydd wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau addysg uwch. Efallai bod dysgwyr eraill wedi graddio yn y pynciau hyn yn 20/21 a 21/22, ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn y garfan hon.
- Efallai bod dysgwyr a safodd arholiadau TGAU yn 2015/16 wedi graddio yn y pynciau hyn mewn blynyddoedd academaidd eraill, ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau hyn, ee os ydynt wedi cymryd blwyddyn i ffwrdd.

## Nod 2: Cynyddu nifer yr ymarferwyr sy’n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy’n cefnogi dysgwyr

Fel y nodwyd yn y Cynllun, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn wynebu heriau penodol o ran recriwtio ymarferwyr sy’n gallu cefnogi dysgwyr. Mae gweithwyr cymorth dysgu ac ymarferwyr sy’n cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhan allweddol o weithlu ysgolion.

Mae’r data yn nhabl 2.1 isod yn dangos y newid yn nifer y staff cymorth mewn ysgolion sydd â sgiliau Cymraeg ar wahanol lefelau ers 2020. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae'r data'n dangos bod gan y mwyafrif helaeth o staff cymorth sgiliau Cymraeg ar lefel ganolradd neu uwch. Fodd bynnag, mae’n dal i fod yn destun pryder bod sgiliau 325 o staff cymorth ar lefel sylfaen neu is. Mae’r data yn awgrymu nad oes digon o weithwyr cymorth dysgu o hyd sydd â’r sgiliau Cymraeg i lenwi rolau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, heb sôn am ddigon i allu cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

**Tabl 2.1: Nifer y staff cymorth yn ôl cyfrwng ysgol, rôl a’u gallu i siarad Cymraeg, Tachwedd 2023, a’r newid ers 2020**

| Cyfrwng yr ysgol | Rôl | Dim sgiliau/ Mynediad | Sylfaen | Canolradd | Uwch/ hyfedr | Cyfanswm |
|---|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| Cymraeg | Cynorthwyydd addysgu lefel uwch | 10 (▲<5) | * | 15 (▲<5) | 285 (▼5) | 310 (▼20) |
| | Cynorthwyydd addysgu | 145 (▲35) | 100 (▲40) | 190 (▲30) | 2,320 (▲165) | 2,745 (▲220) |
| | Cynorthwyydd ADY | 40 (▲<5) | 35 (▲20) | 55 (▲20) | 330 (▲30) | 460 (▲50) |
| | **Cyfanswm** | **190 (▲40)** | **135 (▲50)** | **260 (▲55)** | **2,930 (▲190)** | **3,520 (▲255)** |
| Dwyieithog | Cynorthwyydd addysgu lefel uwch | * | * | 5 (▼<5) | 40 (▼5) | 55 (▼15) |
| | Cynorthwyydd addysgu | 80 (▼<5) | 35 (▲5) | 50 (▼<5) | 245 (▲35) | 405 (▲30) |
| | Cynorthwyydd ADY | 10 (▼20) | 10 (▼<5) | 10 (►0) | 95 (▼40) | 120 (▼65) |
| | **Total** | **95 (▼25)** | **45 (▲5)** | **65 (▼<5)** | **380 (▼10)** | **580 (▼50)** |
| Saesneg | Cynorthwyydd addysgu lefel uwch | 835 (▼10) | 255 (▲5) | 70 (▼5) | 75 (▲5) | 12,35 (▼30) |
| | Cynorthwyydd addysgu | 8,560 (▲600) | 1,450 (▼30) | 275 (▼25) | 385 (▲15) | 10,685 (▲360) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynorthwyydd ADY | 1,470 (▲55) | 185 (▼10) | 55 (▲15) | 50 (▼<5) | 1760 (▼<5) |
| | **Cyfanswm** | **10,865 (▲645)** | **1,890 (▼35)** | **400 (▼20)** | **510 (▲15)** | **13,680 (▲325)** |
| **Amherthnasol** | Cynorthwyydd addysgu lefel uwch | 165 (▲60) | 20 (▲5) | 5 (▼<5) | 30 (▼5) | 220 (▲50) |
| | Cynorthwyydd addysgu | 1,160 (▲320) | 100 (▼5) | 45 (▲<5) | 120 (▼15) | 1,455 (▲205) |
| | Cynorthwyydd ADY | 935 (▲155) | 75 (▲<5) | 25 (▲5) | 90 (▲20) | 1,130 (▲160) |
| | **Cyfanswm** | **2,260 (▲530)** | **200 (▲<5)** | **75 (▲5)** | **240 (►0)** | **2,800 (▲410)** |
| **Cyfanswm yr ysgolion** | Cynorthwyydd addysgu lefel uwch | 1,015 (▲45) | 280 (▲<5) | 95 (▼5) | 430 (▼10) | 1,820 (▼15) |
| | Cynorthwyydd addysgu | 9,945 (▲950) | 1,685 (▲10) | 560 (▲<5) | 3,065 (▲200) | 15,290 (▲810) |
| | Cynorthwyydd ADY | 2,455 (▲195) | 305 (▲15) | 140 (▲40) | 565 (▲5) | 3,470 (▲145) |
| | **Cyfanswm** | **13,410 (▲1,190)** | **2,270 (▲25)** | **795 (▲40)** | **4,060 (▲195)** | **20,580 (▲940)** |

Ffynhonnell: CBGY

Mae’r gwerthoedd wedi’u talgrynnu i’r 5 agosaf. Lle bo’r nifer yn llai na 5 ond yn fwy na 0 (*), ni ddangoswyd y nifer.
(a) Yn cynnwys darpariaeth dwy ffrwd a darpariaeth drosiannol
(b) Cyfrwng yr ysgol yn amherthnasol i feithrinfeydd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

Mae data tabl 2.2 yn dangos y newid yn nifer y staff cymorth ADY yn ôl cyfrwng ysgol a gallu yn y Gymraeg rhwng 2020 a 2023. Mae’n destun pryder bod nifer y staff cymorth ADY sydd â sgiliau ar lefel uwch neu hyfedr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog wedi gostwng 25, a bod nifer y rhai sydd heb unrhyw sgiliau neu sydd â sgiliau ar lefel mynediad yn unig wedi cynyddu ychydig. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae’r data yn awgrymu bod nifer ddigonol o unigolion o hyd â gallu yn y Gymraeg ar lefel uwch neu hyfedr, sy’n gweithio mewn cyfanswm o 442 o ysgolion cyfrwng cymraeg, dwyieithog, dwy ffrwd a throsiannol.

Mae'r rhan fwyaf o'r cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion yn ymgymryd â'r rôl hon yn ogystal â'u prif rôl fel pennaeth, athro dosbarth, gweithiwr cymorth dysgu neu staff cymorth ADY. Felly, mae tabl 2.2 isod yn cynnwys rhai unigolion sydd hefyd yn cael eu cyfrif yn niferoedd yr athrawon a gyflwynir yn nhablau 2.1, 3.1 a 3.2 pan fo’u prif rôl fel athro neu weithiwr cymorth dysgu.

**Tabl 2.2 Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ôl cyfrwng ysgol a gallu yn y Gymraeg, Tachwedd 2023, a'r newid ers 2020**

| Cyfrwng yr ysgol | Dim sgiliau / Mynediad | Sylfaen | Canolradd | Uwch / Hyfedr | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| Cymraeg (a) | 5 (▲<5) | * | 5 (▲<5) | 380 (▼15) | 395 (▼20) |
| Dwyieithog | 5 (▲<5) | 0 (►0) | * | 25 (▼10) | 30 (▼5) |
| Saesneg | 375 (▼<5) | 395 (▲45) | 160 (▼20) | 125 (▲<5) | 1,055 (▲10) |
| Amherthnasol (b) | 45 (►0) | 20 (▲<5) | 5 (▼<5) | 10 (▼<5) | 85 (►0) |
| Cyfanswm | **435 (►0)** | **420 (▲45)** | **170 (▼20)** | **540 (▼20)** | **1,565 (▼15)** |

Ffynhonnell: CBGY

Mae'r gwerthoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Lle bo'r nifer yn llai na 5 ond yn fwy na 0 (*), ni ddangoswyd y nifer
(a) Yn cynnwys darpariaeth dwy ffrwd a darpariaeth drosiannol
(b) Cyfrwng yr ysgol yn amherthnasol i feithrinfeydd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

## Nod 3: Datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd a'i arbenigedd i addysgu'r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Ein gweledigaeth yw galluogi pob dysgwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn eu bywyd bob dydd. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, mae angen i ni gael ymarferwyr sydd â'r sgiliau i addysgu Cymraeg fel iaith ac ar draws y cwricwlwm. Mae CBGY yn darparu data blynyddol ar allu ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion yng Nghymru yn seiliedig ar fframwaith cymhwysedd y Gymraeg i ymarferwyr addysg a bydd yn ein galluogi i fonitro cynnydd o ran cynyddu'n raddol nifer yr ymarferwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch.

Mae gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ddadansoddiad ar lefel ysgol o allu ymarferwyr yn y Gymraeg, a byddwn yn disgwyl iddynt ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r gwaith o gynllunio eu cynnig dysgu proffesiynol ac i gyfeirio ymarferwyr at gyrsiau cenedlaethol drwy'r cynllun sabothol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae Tabl 3.1 yn dangos y newid yn lefelau gallu'r holl athrawon yn y Gymraeg yn ôl awdurdod lleol rhwng 2020 a 2023, waeth ym mha sector y maent yn gweithio. Mae'r data'n dangos mai ychydig iawn o newid cadarnhaol a welwyd dros y tair blynedd diwethaf, ac mae niferoedd uchel o athrawon mewn rhai awdurdodau lleol o hyd sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg neu sydd â sgiliau ar lefel mynediad yn unig.

**Tabl 3.1: Athrawon yn ôl awdurdod lleol a gallu yn y Gymraeg, Tachwedd 2023, a'r newid ers 2020**

| Awdurdod lleol (a) | Dim sgiliau / Mynediad | Sylfaen | Canolradd | Uwch / Hyfedr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 30 (▲<5) | 10 (▼<5) | 20 (▲<5) | 475 (▲<5) | 535 (▲5) |
| Gwynedd | 50 (▲10) | 20 (▼<5) | 25 (►0) | 920 (▲50) | 1,020 (▲10) |
| Conwy | 255 (▲5) | 140 (▼10) | 80 (▼<5) | 470 (▲10) | 950 (▼10) |
| Sir Ddinbych | 305 (▲25) | 160 (▼5) | 80 (▲<5) | 365 (▲<5) | 910 (▲15) |
| Sir y Fflint | 530 (▼30) | 355 (▲25) | 150 (▼20) | 245 (▼25) | 1,285 (▼55) |
| Wrecsam | 465 (▲10) | 285 (▼5) | 90 (▼10) | 250 (▼10) | 1,090 (▼25) |
| Powys | 395 (▼10) | 215 (▲15) | 120 (▲<5) | 320 (▲<5) | 1,045 (▼25) |
| Ceredigion | 55 (▲<5) | 30 (▲5) | 40 (▲5) | 445 (▼15) | 570 (▼20) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Benfro | 385 (▲60) | 180 (▲35) | 90 (▼5) | 305 (▲25) | 955 (▲20) |
| Sir Gaerfyrddin | 290 (▼15) | 200 (▲<5) | 125 (▲10) | 935 (▲10) | 1,550 (▲5) |
| Abertawe | 950 (▲45) | 385 (▼5) | 150 (▼15) | 445 (▲10) | 1,935 (▲30) |
| Castell-nedd Port Talbot | 480 (▼10) | 245 (▼10) | 80 (▼15) | 285 (▲<5) | 1,090 (▼30) |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 625 (▲<5) | 325 (►0) | 95 (►0) | 215 (▼<5) | 1,260 (▼10) |
| Bro Morgannwg | 750 (▲55) | 130 (▲15) | 180 (▼5) | 280 (▲20) | 1,340 (▲80) |
| Rhondda Cynon Taf | 895 (▼<5) | 345 (▲30) | 140 (▼20) | 575 (▼55) | 1,955 (▼70) |
| Merthyr Tudful | 215 (▼<5) | 100 (▼5) | 50 (▼<5) | 85 (▼10) | 450 (▼20) |
| Caerffili | 660 (▲5) | 330 (▼<5) | 100 (▼5) | 340 (▼25) | 1,425 (▼50) |
| Blaenau Gwent | 280 (▲10) | 140 (▲20) | 25 (▲10) | 45 (▲<5) | 505 (▲25) |
| Torfaen | 325 (▼15) | 180 (▲15) | 70 (▼<5) | 150 (▲15) | 740 (▲<5) |
| Sir Fynwy | 355 (▼15) | 170 (▼10) | 60 (▲5) | 60 (▲10) | 640 (▼10) |
| Casnewydd | 745 (▲40) | 405 (▼20) | 105 (▲<5) | 160 (▼<5) | 1,415 (▼25) |
| Caerdydd | 1,790 (▲170) | 475 (▲15) | 125 (▼<5) | 710 (▼35) | 3,100 (▼35) |
| **Cymru** | **10,830 (▲350)** | **4,815 (▲85)** | **1,990 (▼65)** | **8,070 (▼15)** | **25,740 (▼185)** |

Ffynhonnell: CBGY

Mae’r gwerthoedd wedi’u talgrynnu i’r 5 agosaf.

(a) Ar lefel awdurdod lleol, cyfrifir unigolion ym mhob awdurdod lleol lle maent yn ymddangos. Ar lefel Cymru, cyfrifir unigolion unwaith yn unig. Mae’n bosibl, felly, na fydd ffigurau ar lefel Cymru yn cyfateb i gyfanswm ffigurau’r awdurdodau lleol.

Mae’r data yn nhabl 3.2 yn dangos y newid yn nifer yr athrawon yn ôl sector, cyfrwng ysgol a gallu yn y Gymraeg rhwng 2020 a 2023. Mae’r data ar gyfer Tachwedd 2023 yn dangos mai ychydig iawn o newid a welwyd ym mhroffil sgiliau iaith athrawon cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae 3 ysgol ganol cyfrwng Cymraeg newydd wedi agor yn ystod 2020-2023, sy’n esbonio’r newid yn sgiliau iaith athrawon mewn ysgolion canol. Mae’r data hefyd yn dangos bod nifer yr athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sydd â gallu yn y Gymraeg ar lefel ganolradd neu’n uwch wedi gostwng 180.

Mae’n glir bod lle i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol weithio gyda’u hysgolion i sicrhau bod cynllunio strategol i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr yn rhan allweddol o’u cynlluniau datblygu.

**Tabl 3.2: Athrawon yn ôl sector, cyfrwng ysgol a gallu yn y Gymraeg Tachwedd 2023, a'r newid ers 2020**

| Sector | Cyfrwng yr ysgol | Dim sgiliau / Mynediad | Sylfaen | Canolradd | Uwch / Hyfedr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Meithrin | Amherthnasol (a) | 15 (▼5) | 5 (▲<5) | * | 10 (►0) | 30 (▼10) |
| Cynradd | Cymraeg (b) | 40 (▼<5) | 50 (▲10) | 40 (▲5) | 2,975 (▲<5) | 3,105 (▼35) |
| | Saesneg | 2,955 (▼155) | 3,605 (▼15) | 1,415 (▼125) | 1,175 (▼65) | 9,145 (▼445) |
| | Cyfanswm | 2,990 (▼160) | 3,650 (▼<5) | 1,455 (▼120) | 4,150 (▼60) | 12,250 (▼480) |
| Canol | Cymraeg (b) | 25 (▼10) | 10 (▲<5) | * | 715 (▲135) | 750 (▲120) |
| | Saesneg | 630 (▲230) | 145 (▲45) | 60 (▲20) | 115 (▲45) | 965 (▲315) |
| | Cyfanswm | 655 (▲220) | 150 (▲50) | 60 (▲20) | 835 (▲175) | 1,715 (▲435) |
| Uwchradd | Cymraeg (b) | 145 (▼60) | 45 (▲<5) | 55 (►0) | 1,910 (▼75) | 2,155 (▼140) |
| | Saesneg | 6,205 (▲205) | 800 (▲25) | 335 (▲25) | 990 (▼80) | 8,350 (▼150) |
| | Cyfanswm | 6,350 (▲145) | 845 (▲25) | 390 (▲25) | 2,900 (▼155) | 10,505 (▼290) |
| Arbennig / Uned Cyfeirio Disgyblion | Amherthnasol (a) | 820 (▲150) | 160 (▲15) | 85 (▲15) | 175 (▲20) | 1,240 (▲155) |
| **Cyfanswm yr Ysgolion** | Cymraeg (b) | 210 (▼70) | 100 (▲15) | 100 (▲<5) | 5,600 (▲65) | 6,010 (▼50) |
| | Saesneg | 9,790 (▲275) | 4,545 (▲55) | 1,810 (▼80) | 2,285 (▼100) | 18,460 (▼280) |
| | Amherthnasol (a) | 835 (▲145) | 165 (▲15) | 85 (▲15) | 185 (▲20) | 1,275 (▲145) |
| | Cyfanswm | 10,830 (▲350) | 4,815 (▲85) | 1,990 (▼65) | 8,070 (▼15) | 25,740 (▼185) |

Ffynhonnell: CBGY

Mae'r gwerthoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Lle bo'r nifer yn llai na 5 ond yn fwy na 0 (*), ni ddangoswyd y nifer
(a) Cyfrwng yr ysgol yn amherthnasol i feithrinfeydd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion
(b) Yn cynnwys darpariaeth dwy ffrwd, darpariaeth drosiannol a darpariaeth ddwyieithog

Mae athrawon cyflenwi yn rhan hanfodol o'n gweithlu ac yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu ein dysgwyr. Byddant yn gallu cael mynediad at y rhaglen genedlaethol o gyrsiau Cymraeg a gynigir drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd y data

yn nhabl 3.3 yn dangos bod cyfran yr athrawon cyflenwi a gofrestrir gyda CGA, yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg, wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Tabl 3.3: Nifer yr athrawon cyflenwi a gofrestrwyd gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg**

| Yn gallu siarad Cymraeg | 2019 | | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Ydy | 1,317 | 27.7 | 1,295 | 27.9 | 1,128 | 26.7 | 1,008 | 24.8 | 983 | 25.4 | 1,033 | 25.8 |
| Nac ydy | 3,441 | 72.3 | 3,325 | 71.7 | 3,077 | 72.9 | 3,025 | 74.5 | 2,861 | 74.0 | 2,950 | 73.6 |
| Anhysbys | 1 | 0 | 15 | 0.3 | 17 | 0.4 | 25 | 0.6 | 23 | 0.6 | 25 | 0.6 |
| **Cyfanswm** | **4,759** | **100** | **4,635** | **100** | **4,222** | **100** | **4,058** | **100** | **3,867** | **100** | **4,008** | **100** |

Ffynhonnell: CGA

## Nod 4: Meithrin gallu arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan bob arweinydd y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol o fewn diwylliant o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

Fel y nodwyd yn y Cynllun, os ydym am gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg Gymraeg yn unol â gweledigaeth Cymraeg 2050, bydd angen i ni sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ac arweinwyr uwch ar gyfer y sector.

**Tabl 4.1: Nifer yr ysgolion yng Nghymru a nifer penaethiaid ar ysgolion ffederal, blwyddyn academaidd 2023 i 2024**

| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Saesneg â phenaethiaid ffederal* | Cyfrwng Cymraeg â phenaethiaid ffederal* |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion cynradd | 822 | 388 | 43 | 48 |
| Ysgolion canol | 15 | 14 | 0 | 0 |
| Ysgolion uwchradd | 136 | 40 | 3 | 1 |
| **Cyfanswm** | **973** | **442** | **46** | **49** |

Ffynhonnell: CYBLD, Ebrill 2021

*Cyfrif ysgolion a nododd fod ganddynt gorff llywodraethu ffederal

Fel yr amlinellir yn nhabl 4.1, yn 2024 roedd cyfanswm o 442 o ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog, dwy ffrwd a throsiannol. O'r 442 o ysgolion hynny, nodir fod gan 49 gorff llywodraethu ffederal, gyda tua 24 o benaethiaid yn arwain mwy nag un ysgol. Felly, nifer bresennol y penaethiaid sydd eu hangen i arwain ysgolion cyfrwng Cymraeg yw tua 418. Mae tabl 4.2 yn dangos nifer yr arweinwyr ysgolion a gyflogir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog neu gyfrwng Saesneg yn ôl gallu i siarad Cymraeg. Nifer y penaethiaid neu benaethiaid gweithredol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn 2023 oedd 390, sydd yn is na chyfanswm nifer yr ysgolion. Awgryma hyn y gallai bod tua 28 swydd pennaeth yn wag neu fod yr ysgol yn cael ei harwain gan ddirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol, neu mae'n bosibl bod nifer o ysgolion wedi'u ffederaleiddio'n anffurfiol.

Mae'r data ar allu ieithyddol penaethiaid yn nhabl 4.2 yn dangos y canlynol ers 2020:

- Gwelwyd 60 yn rhagor o arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog neu gyfrwng Saesneg a oedd yn gallu siarad Cymraeg ar lefel ganolradd neu uwch
- Roedd bron i bob arweinydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn gallu siarad Cymraeg ar lefel ganolradd neu uwch
- Gwelwyd 30 yn rhagor o benaethiaid neu benaethiad gweithredol a oedd yn gallu siarad Cymraeg ar lefel ganolradd neu uwch.

**Tabl 4.2: Athrawon mewn arweinyddiaeth yn ôl cyfrwng ysgol, rôl a'u gallu yn y Gymraeg, Tachwedd 2023, a'r newidiadau ers 2020**

| Cyfrwng yr ysgol | Rôl arweinyddiaeth | Dim sgiliau / Mynediad | Sylfaen | Canolradd | Uwch / Hyfedr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrwng Cymraeg** | Pennaeth (a) | * | * | * | 360 (▲15) | 365 (▲5) |
| | Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol | * | * | 5 (▲<5) | 355 (▼<5) | 365 (▼<5) |
| | Cyfanswm | 5 (▲<5) | * | 5 (►0) | 715 (▲15) | 730 (▲<5) |
| **Dwyieithog** | Pennaeth (a) | * | * | * | 30 (▼<5) | 30 (▼5) |
| | Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol | 10 (▲<5) | * | * | 100 (▲<5) | 115 (►0) |
| | Cyfanswm | 10 (▼<5) | * | * | 125 (►0) | 145 (▼5) |
| **Cyfrwng Saesneg** | Pennaeth (a) | 335 (▼40) | 335 (▲35) | 145 (▲<5) | 140 (▲<5) | 950 (▼15) |
| | Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol | 710 (▲<5) | 405 (▲40) | 190 (▲5) | 190 (▼5) | 1,495 (▲10) |
| | Cyfanswm | 1,040 (▼40) | 740 (▲75) | 330 (▲10) | 330 (▼<5) | 2,445 (▼<5) |
| **Amherthnasol** | Pennaeth (a) | 40 (►0) | 10 (▲<5) | 5 (▲<5) | 10 (▼<5) | 70 (►0) |
| | Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol | 85 (▲10) | 15 (►0) | 5 (▼<5) | 25 (▲5) | 130 (▲10) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | 130 (▲10) | 20 (▲<5) | 10 (▲<5) | 35 (▲<5) | 200 (▲10) |
| **Cyfanswm yr Ysgolion** | Pennaeth (a) | 375 (▼45) | 345 (▲35) | 150 (▲<5) | 540 (▲15) | 1,415 (▼15) |
| | Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol | 810 (▲15) | 420 (▲35) | 200 (▲5) | 665 (▼<5) | 2,100 (▲20) |
| | Cyfanswm | 1,185 (▼30) | 765 (▲75) | 350 (▲5) | 1,205 (▲15) | 3,515 (▲5) |

Ffynhonnell: CBGY

Mae’r gwerthoedd wedi’u talgrynnu i’r 5 agosaf. Lle bo’r nifer yn llai na 5 ond yn fwy na 0 (*), ni ddangoswyd y nifer
(a) Yn cynnwys penaethiaid gweithredol, penaethiaid a phenaethiaid dros dro

Mae tabl 4.3 yn cynnwys data ar oedran arweinwyr ysgolion sydd yn nodi eu gallu yn y Gymraeg fel canolradd neu uwch yn ôl sector ysgol, rôl ac oed, Tachwedd 2023, a’r newidiadau ers 2020. Mae’r data yn dangos y canlynol:

- Ar y cyfan, gwelwyd 90 yn rhagor o benaethiaid a dirprwy benaethiaid neu benaethiaid cynorthwyol 50 i 59 oed neu’n hŷn.
- Ar y cyfan, mae 65 yn llai o benaethiaid a dirprwy benaethiaid neu benaethiaid cynorthwyol 49 oed neu’n iau, sy’n awgrymu nad yw nifer yr unigolion sy’n symud i rolau uwch-arweinwyr yn y categorïau oedran iau yn ddigon i gynnal y nifer a oedd gennym 3 blynedd yn ôl.

Byddai hyn yn awgrymu bod llwybrau i brifathrawiaeth yn hanfodol i greu'r gronfa o benaethiaid yn y dyfodol.

**Tabl 4.3: Arweinwyr ysgol â sgiliau Cymraeg sy’n uwch na chanolradd, yn ôl sector, rôl ac oedran, Tachwedd 2023, a’r newidiadau ers 2020**

| Sector | Arweinyddiaeth | O dan 40 oed | 40 i 49 oed | 50 i 59 oed | 60 oed a throsodd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Meithrin a Chynradd** | Pennaeth (a) | 75 (▲5) | 205 (▼45) | 290 (▲40) | 20 (▲<5) | 595 (▲5) |
| | Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol | 135 (▼30) | 265 (▲<5) | 125 (▲30) | 5 (▼<5) | 535 (▲<5) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | 215 (▼25) | 470 (▼40) | 420 (▲70) | 25 (▲<5) | 1130 (▲5) |
| **Canol** | Pennaeth (a) | * | 5 (▲<5) | 10 (▲<5) | * | 20 (▲5) |
| | Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol | 15 (▲<5) | 35 (▲10) | 20 (▲<5) | * | 75 (▲15) |
| | Cyfanswm | 15 (►0) | 45 (▲15) | 30 (▲5) | * | 90 (▲25) |
| **Uwchradd** | Pennaeth (a) | 5 (▲<5) | 30 (▲<5) | 30 (▲<5) | * | 65 (▲<5) |
| | Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol | 55 (▼10) | 115 (▼<5) | 60 (►0) | * | 230 (▼15) |
| | Cyfanswm | 60 (▼10) | 145 (▼<5) | 85 (▲<5) | * | 295 (▼15) |
| **Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion** | Pennaeth | * | 10 (▲<5) | 5 (►0) | * | 15 (▲<5) |
| | Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol | * | 15 (▼<5) | 10 (▲5) | * | 30 (▲<5) |
| | Cyfanswm | * | 25 (▲<5) | 15 (▲5) | * | 45 (▲5) |
| **Cyfanswm yr Ysgolion** | Pennaeth (a) | 85 (▲5) | 250 (▼35) | 335 (▲45) | 20 (▲<5) | 690 (▲20) |
| | Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol | 210 (▼40) | 435 (▲5) | 215 (▲40) | 10 (▼<5) | 865 (▲<5) |
| | Cyfanswm | 290 (▼35) | 685 (▼30) | 550 (▲85) | 30 (▲<5) | 1560 (▲20) |

Ffynhonnell: CBGY

Mae'r gwerthoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Lle bo'r nifer yn llai na 5 ond yn fwy na 0 (*), ni ddangoswyd y nifer
(a) Yn cynnwys penaethiaid gweithredol, penaethiaid a phenaethiaid dros dro

Mae'n ofynnol i benaethiaid feddu ar yr achrediad Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) fel trothwy ar gyfer mynediad i brifathrawiaeth. Mae tabl 4.4 yn amlinellu nifer yr ymgeiswyr sydd wedi ymgymryd â'r CPCP dros y pum

mlynedd diwethaf. Mae nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu yn 2023-24 gyda 37 o ymgeiswyr cynradd a 10 o ymgeiswyr uwchradd llwyddiannus.

**Tabl 4.4 – Nifer yr ymgeiswyr CPCP a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg**

| Cymru | Y nifer a wnaeth gais | Nifer yr ymgeiswyr a aseswyd | Nifer yr ymgeiswyr a aseswyd yn Gymraeg | Nifer yr ymgeiswyr a basiodd | Nifer yr ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg a basiodd | Ymgeiswyr llwyddiannus cyfrwng Cymraeg: cynradd | Ymgeiswyr llwyddiannus cyfrwng Cymraeg: uwchradd | Ymgeiswyr llwyddiannus cyfrwng Cymraeg: arbennig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2023 i 2024 | 242 | 227 | 61 | 190 | 51 | 37 | 10 | 0 |
| 2022 i 2023 | 193 | 155 | 40 | 107 | 28 | 21 | 7 | 0 |
| 2021 i 2022 | | | | | | | | |
| 2020 i 2021 | 68 | 60 | 4 | 49 | 4 | 2 | 2 | 0 |
| 2019 i 2020 | 190 | 166 | 34 | 137 | 25 | 18 | 6 | 1 |
| 2018 i 2019 | 220 | 213 | 51 | 168 | 45 | 32 | 13 | 0 |
| 2017 i 2018 | 226 | 208 | 42 | 176 | 39 | 35 | 3 | 1 |
| 2016 i 2017 | 152 | 150 | 43 | 126 | 28 | 20 | 8 | 0 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru